**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
**Health and Social Care Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Mark Drakeford AC**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
**Vaughan Gething AC**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd

24 Hydref 2014

Annwyl Weinidogion,

**Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2015-16**

Diolch ichi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar 16 Hydref 2014 i drafod Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16. Yn ystod y cyfarfod trafododd yr Aelodau nifer o themâu sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor, gan gynnwys rhai materion iechyd a gofal cymdeithasol sydd hefyd yn berthnasol i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.


Diben y llythyr hwn yw tynnu sylw at y materion allweddol a nodwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod ei waith craffu. Mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad A. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r materion a godwyd wedi cael eu labelu yn unol â phedair egwyddor craffu ariannol da: fforddiadwyedd, blaenoriaethu, gwerth am arian, a phroses y gyllideb.

Bydd y llythyr hwn yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Cyllid i gynorthwyo ei waith craffu trosfwaol ar y Gyllideb Ddrafft. Byddai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn croesawu cael y wybodaeth ychwanegol y gofynnir amdani yn Atodiad A cyn gynted â phosibl er mwyn bod yn sail i'r drafodaeth derfynol ar Gyllideb Ddrafft 2015-16 Llywodraeth Cymru.

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA
Ffôn/Tel: 029 2089 8403
E-bost/Email: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk/HSCCommittee@wales.gov.uk
Trydar/Twitter: @iechydsenedd/@seneddhealth
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Bydd y llythyr hefyd yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg sydd, at ddiben defnyddio eich amser yn effeithiol, wedi gofyn i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol arwain ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (gweler y llythyr yn Atodiad B). Gan nad oedd amser yn caniatáu i Aelodau godi'r cwestiynau a ofynnir yn y llythyr yn Atodiad B, byddai'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ddiolchgar o gael ateb ysgrifenedig gennych i'r cwestiynau hyn.

Yn gywir,



**David Rees AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Cc**:
Jocelyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Ann Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**ATODIAD A: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2015-16 - materion allweddol a nodwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

## 1. Dyraniad refeniw ychwanegol ar gyfer gwasanaethau'r GIG yn 2015-16

*(Egwyddor: blaenoriaethu)*

Mae'r newid mwyaf yng Nghyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2015-16 yn deillio o ddyraniad ychwanegol o £225 miliwn yn unol â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i gefnogi'r GIG yng Nghymru. At ei gilydd, mae Cyllideb Ddrafft 2015-16 yn cynnwys arian refeniw ychwanegol o £273 miliwn (4.8%) ym Maes Rhaglenni Gwariant Refeniw Cyflawni'r GIG ar gyfer 2015-16 o gymharu â 2014-15.[1] Nid yw'r newid hwn yn adlewyrchu'r cyhoeddiad o £200 miliwn y bwriedir ei ddyrannu i'r GIG yn 2014-15 drwy gyfrwng y Gyllideb Atodol nesaf.[2]

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod casgliad adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sy'n nodi mewn cyd-destun o gynnydd mewn costau, cynnydd yn y galw, poblogaeth sy'n heneiddio, a thwf yn nifer y bobl sy'n dioddef o gyflyrau cronig, bod angen ymateb arloesol a chyllid ychwanegol er mwyn i'r GIG barhau i ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel.[3] Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod bod y dyraniad refeniw ychwanegol ar gyfer 2015-16 yn adlewyrchu'r amcangyfrifon a amlinellwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn ei waith ar gyllid y GIG yn y blynyddoedd diwethaf.[4] Yn ogystal, mae cysylltiad agos rhwng y cyllid ychwanegol o £200 miliwn a gyhoeddwyd ar gyfer 2014-15 a'r amcangyfrif diweddaraf o fwlch cyllido £198 miliwn yn y flwyddyn gyfredol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyllid ychwanegol a ddyrannwyd ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2014-15 a 2015-16.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'r pwyslais yn adroddiad Ymddiriedolaeth Nuffield ar bwysigrwydd gwelliannau mewn effeithlonrwydd, cynhyrchiant a darparu gwasanaethau i sicrhau dyfodol hirdymor y GIG yng Nghymru. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r farn hon, a barn Archwilydd Cyffredinol Cymru, sydd wedi nodi y bydd "yn anodd i GIG Cymru wneud cynnydd heb newid

---

[1] Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Ddrafft 2015-2016 Blaenoriaethau i Gymru* , Medi 2014
[2] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cofnod o Drafodion y Cyfarfod Llawn*, 30 Medi, 2014
[3] Ymddiriedolaeth Nuffield, *Degawd o galedi yng Nghymru? Y pwysau cylido yn wynebu'r GIG yng Nghymru hyd at at 2025/26,* Mehefin 2014
[4] Archwilydd Cyffredinol Cymru, *GIG Cymru: Trosolwg o Berfformiad Ariannol a Pherfformiad Gwasanaethau 2013-14*, 13 Hydref 2014

trawsnewidiol".[5] Yn hynny o beth, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth gan Lywodraeth Cymru ynghylch sut y bydd yn monitro ac yn sicrhau bod yr arian refeniw ychwanegol ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2014-15 a 2015-16 yn arwain at ddiwygio gwasanaethau'n ystyrlon a chanlyniadau cadarnhaol i gleifion, yn hytrach na chael ei ddefnyddio gan fyrddau iechyd i fynd i'r afael â diffygion ar ddiwedd blwyddyn yn deillio o fodelau gofal heb eu newid.

## 2. Fformiwla dyrannu adnoddau (Townsend) a dosbarthu cyllid ychwanegol

*(Egwyddor: proses y gyllideb/gwerth am arian)*

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y bydd tua £200 miliwn o'r £225 miliwn o gyllid refeniw ychwanegol ar gyfer 2015-16 yn cael ei ddyrannu yn bennaf drwy'r fformiwla Townsend diwygiedig, gan gyfeirio at wybodaeth yn y cynlluniau ariannol tymor canolig. Dywedodd y Gweinidog y bydd y dyraniadau'n cael eu gwneud mor hwyr â phosibl yng nghylch y gyllideb er mwyn i benderfyniadau gael eu seilio ar y tueddiadau diweddaraf o ran y boblogaeth a'r data diweddaraf sy'n seiliedig ar anghenion.[6] Bydd hyn yn dod i ben cyn i lythyrau dyraniad ffurfiol gael eu hanfon ym mis Ionawr 2015.[7]

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio fformiwla dryloyw sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau dull cynaliadwy o ddyrannu cyllid i fyrddau iechyd yn y dyfodol. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion ar ddosbarthiad y cyllid ychwanegol hwn ar ôl i hynny gael ei wneud, gan gynnwys gwybodaeth am sut y mae cynlluniau tymor canolig integredig byrddau iechyd wedi dylanwadu ar benderfyniadau.

## 3. Lleihad mewn cyllid llywodraeth leol a'i effaith

*(Egwyddor: blaenoriaethu/fforddiadwyedd)*

Mae'r Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2015-16 yn amlinellu gostyngiad o £154 miliwn (3.5%) yn y Cymorth Ariannol ar gyfer Gweithredu gan Lywodraeth Leol. Noda'r ddogfen naratif sy'n cyd-fynd â'r Gyllideb Ddrafft fod £10 miliwn ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i lywodraeth leol er mwyn cydnabod y

---

[5] Archwilydd Cyffredinol Cymru, *GIG Cymru yn mantoli'r Gyllideb yn 2013-14 er gwaethaf perfformiad cymysg yn erbyn targedau gwasanaeth*, Hydref 13, 2014
[6] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Drafft o Gofnod y Trafodion [para 16]* 16 Hydref 2014
[7] Ibid, *HSC(4)-24-14 Papur 5 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd*, 16 Hydref 2014

pwysau y bydd gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu o ganlyniad i'r gostyngiad yn y gyllideb gyffredinol. Noda hefyd y byddai cyllid o £67.5 miliwn yn cael ei gynnal o fewn y *Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol* i gefnogi trawsnewid polisi sy'n sail i ddarparu gofal cymdeithasol yng Nghymru.[8]

Mae Asesiad Effaith Strategol Integredig Llywodraeth Cymru sy'n cyd-fynd â dogfennau'r Gyllideb Ddrafft yn tynnu sylw at y canlynol:

- mae gwasanaethau gofal cymdeithasol yn wynebu cynnydd gwirioneddol yn y galw;
- mae nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn cynyddu;
- mae nifer y bobl hŷn a chanddynt anghenion gofal cymhleth yn cynyddu;
- mae nifer y bobl sy'n cofrestru gydag awdurdodau lleol fel rhai ag anabledd dysgu yn cynyddu.[9]

Mae'r Pwyllgor yn pryderu, felly, y bydd y gostyngiad sylweddol yn y dyraniad llywodraeth leol ar gyfer 2015-16 yn cael effaith negyddol ar ddarparu gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu y gallai gostyngiad effeithio ar ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol sy'n cefnogi gwell iechyd ac adferiad corfforol a meddyliol o weithdrefnau meddygol. At hynny, o ystyried y cysylltiadau pwysig rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r gostyngiadau sylweddol arfaethedig yn y dyraniad llywodraeth leol roi pwysau ar gynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau iechyd yn ogystal â gofal cymdeithasol.

### 4. Y Gronfa Gofal Canolraddol

*(Egwyddor: blaenoriaethu/gwerth am arian)*

Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw sicrhau mwy o integreiddio o ran iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r agenda integreiddio wedi cael ei hannog drwy greu'r Gronfa Gofal Canolraddol ("y Gronfa"), ymysg pethau eraill.

---

[8] Llywodraeth Cymru, *Cyllideb Ddrafft 2015-2016 Blaenoriaethau i Gymru ,* Medi 2014
[9] Ibid, *Cyllideb Ddrafft 2015-16 Asesiad Effaith Strategol Integredig*, 30 Medi, 2014

Roedd y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2014-15 yn cynnwys £35 miliwn o arian refeniw o fewn y dyraniad llywodraeth leol a chyfalaf gwerth £15 miliwn yn y gyllideb tai ac adfywio i greu'r Gronfa. Ei nod oedd meithrin trefniadau cydweithio effeithiol ar draws y meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai, y trydydd sector a'r sectorau annibynnol a fyddai'n:

> "helpu pobl i gadw eu hannibyniaeth ac aros yn eu cartrefi eu hunain [...] osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty, derbyniadau amhriodol i ofal preswyl, yn ogystal ag osgoi oedi wrth ryddhau o'r ysbyty".[10]

Yn unol â'r bwriad a nodwyd yn flaenorol gan y Gweinidog, gwnaed y dyraniad am flwyddyn yn unig ac nid oes dim darpariaeth ar gyfer y Gronfa yn y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2015-16.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog a ddywedodd fod rhai byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, yn absenoldeb y Gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, ac o ystyried yr arbedion a gyflawnir yn sgil ei defnyddio, yn bwriadu dyrannu cyllid o fannau eraill i barhau â'r gwaith a ysgogwyd gan y Gronfa. Eglurodd y Gweinidog hefyd y bydd yn ystyried a allai rhan o'r cyllid refeniw ychwanegol gwerth £25 miliwn sydd heb ei ddyrannu ar gyfer gwasanaethau'r GIG ar gyfer 2015-16 o bosibl gael ei ddefnyddio i ariannu gwasanaethau y profwyd eu bod yn llwyddiannus gan y Gronfa yn 2014-15.[11]

Er bod y Pwyllgor yn cydnabod na all Llywodraeth Cymru ariannu pob menter yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n pryderu na ddylai'r gwaith da a alluogwyd gan y Gronfa gael ei golli yn absenoldeb y dyraniad penodol hwn. Mae blaenoriaethu'r mathau hyn o fentrau arloesol ac integredig sy'n arbed arian, ym marn y Pwyllgor, yn un o'r prif ffyrdd y gall Llywodraeth Cymru gyflawni'r broses ddiwygio sydd ei hangen i sicrhau gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol cynaliadwy. Yn y tymor byr, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog ynghylch sut y bydd yn monitro ac yn sicrhau y bydd y camau cadarnhaol a gymerwyd o ganlyniad i fodolaeth y Gronfa yn parhau ar ôl i'w chyllid ddod i ben ar ddiwedd 2014-15. Yn y tymor hwy, byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad am a fydd y £25

[10] Datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, *Y Gronfa Gofal Canolraddol*, 20 Mai, 2014
[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Drafft o Gofnod y Trafodion [paragraffau 88-90]*, 16 Hydref 2014

miliwn sydd heb ei ddyrannu yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau gofal canolraddol.

## 5. Gwariant ataliol

*(Egwyddor: blaenoriaethu/gwerth am arian)*

Mae'r Gweinidog yn amcangyfrif bod £105 miliwn, sef 2% o gyfanswm cyllideb refeniw y maes Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn canolbwyntio ar atal problemau ac ysgafnhau'r galw am wasanaethau yn y dyfodol. Drwy ofyn am wybodaeth am ddyraniadau ar gyfer gwasanaethau ataliol, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod atal yn elfen sy'n gynwysedig mewn sawl maes gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor fod ystod o fentrau traws-sectoraidd a thraws-adrannol ar waith, gan gynnwys y Rhaglen Heneiddio'n Iach a chynlluniau atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff. Cyfeiriodd hefyd at bwysigrwydd y rhaglen imiwneiddio fel rhan o'r agenda ataliol. Aeth y Dirprwy Weinidog ymlaen i ddweud bod cydnabyddiaeth bod angen deialog ar draws adrannau a sefydliadau partner o ran yr agenda ataliol.[12]

Mae'r Pwyllgor yn croesawu sicrwydd y Dirprwy Weinidog bod gwaith yn y maes hwn yn symud i'r cyfeiriad cywir. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn nodi ei sylw bod cyflymder y newid yn parhau i fod yn her. At hynny, mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r gostyngiadau yng nghyllideb llywodraeth leol leihau'r gwariant cyffredinol ar wasanaethau ataliol gan fod gwasanaethau awdurdodau lleol yn aml yn ataliol o ran eu natur. Er mwyn diogelu cynaliadwyedd y systemau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ymdrechu'n galetach yn y maes hwn a chanolbwyntio ar y trawsnewidiad sydd ei angen o ran dylunio gwasanaethau er mwyn newid o ddull adweithiol i ddull rhagweithiol.

## 6. Cyfalaf

*(Egwyddor: fforddiadwyedd)*

Yn 2015-16, bydd gostyngiad o £65 miliwn yng nghyfanswm y dyraniadau cyfalaf ar gyfer Maes Rhaglenni Gwariant Cyflawni'r GIG, sef gostyngiad o 23% o gymharu â'r ffigurau diweddaraf ar gyfer 2014-15. Ym mhapur y Gweinidog

---

[12] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Drafft o Gofnod y Trafodion [paragraffau 120-122]*, 16 Hydref 2014

i'r Pwyllgor dywedir bod hyn wedi digwydd o ganlyniad i gyllid afreolaidd a ddarparwyd yn 2014-15 nad yw'n cael ei gario ymlaen i 2015-16.[13]

Er mwyn ymateb i'r gostyngiad yn y gyllideb gyfalaf, eglurodd y Gweinidog i'r Pwyllgor y bydd ymarfer blaenoriaethu yn cael ei gynnal ar gyfer prosiectau cyfalaf. Dywedodd ei bod yn debygol o fod yn ofynnol i bob cais am gyllid cyfalaf yn y dyfodol ddangos ei allu i sicrhau arbedion refeniw a newid mewn gwasanaeth cyn cael ei gymeradwyo.[14] Ceisiodd y Gweinidog i roi sicrwydd i'r Pwyllgor fod anghenion cyllid cyfalaf y cynlluniau ad-drefnu gwasanaethau yng Nghymru yn parhau i fod yn fforddiadwy ac na fu unrhyw newid mewn perthynas ag argaeledd cyllid canolog ar gyfer Canolfan Gofal Arbenigol a Chritigol Gwent.[15] Aeth y Gweinidog ymlaen i fynegi ei siom nad yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa eleni na'r flwyddyn nesaf i gynyddu'r cyllid cyfalaf dewisol. Yn gysylltiedig â hyn, dywedodd os bydd unrhyw danwariant cyfalaf yn dod i'r amlwg yn ystod 2015-16 y bydd yn ystyried dyrannu'r cyllid yn uniongyrchol i Fyrddau Iechyd er mwyn adnewyddu cyfarpar.[16]

Mae papur y Gweinidog i'r Pwyllgor yn cyfeirio at fynd ar drywydd dulliau cyllido arloesol gan sefydliadau iechyd perthnasol, a'r mwyaf datblygedig o'r rhain yw menter Ymddiriedolaeth GIG Felindre i ariannu canolfan ganser arbenigol newydd. Nododd hefyd fod trafodaethau ar y gweill i ymchwilio i hyfywedd defnyddio modelau arloesol i ariannu datblygiadau i'r ystâd gofal sylfaenol, a bod nifer o fyrddau iechyd unigol bellach yn cynnig syniadau.[17]

Mae'r Pwyllgor yn pryderu am y gostyngiad cyffredinol mewn cyllid cyfalaf a byddai'n croesawu gwybodaeth bellach am sut y bydd yr ymarfer blaenoriaethu cyfalaf newydd yn gweithio'n ymarferol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith yr ymchwilir i ddulliau ariannu arloesol a bydd yn cymryd diddordeb brwd mewn polisi a datblygiadau deddfwriaethol yn y dyfodol a fydd yn angenrheidiol i fod yn sail i'r modelau ariannol hyn.

---

[13] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *HSC(4)-24-14 Papur 5 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd*,16 Hydref 2014
[14] Ibid, *Drafft o Gofnod y Trafodion [para 105]*, 16 Hydref 2014
[15] Ibid,*Drafft o Gofnod y Trafodion [paragraffau 108-110]*, 16 Hydref 2014
[16] Ibid,*Drafft o Gofnod y Trafodion [para 115]*, 16 Hydref 2014
[17] Ibid,*HSC(4)-24-14 Papur 5 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd*, 16 Hydref 2014

## 7. Gwasanaethau iechyd meddwl a'r cyllid a glustnodir

*(Egwyddor: blaenoriaethu/proses y gyllideb)*

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl wedi'i gynnwys o fewn y dyraniadau iechyd meddwl sydd wedi'u clustnodi ar gyfer byrddau iechyd. Yn gynwysedig yn hyn mae'r cyllid ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), ond nid yw gwariant ar CAMHS wedi'i glustnodi ar wahân.

Yng ngoleuni cyfeiriadau blaenorol at gyfyngiadau monitro cydymffurfiaeth â'r dyraniadau iechyd meddwl wedi'u clustnodi, mae'r Pwyllgor yn croesawu adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru o'r dull clustnodi ac yn edrych ymlaen at ei gasgliadau yn 2015. Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r Gweinidog yn dymuno achub y blaen ar gasgliadau'r adolygiad, ond mae'n cwestiynu ymarferoldeb cyflwyno swm wedi'i glustnodi o fewn swm wedi'i glustnodi. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ffocws y Gweinidog ar sicrhau canlyniadau da i gleifion yn hytrach nag aros yn gaeth i unrhyw fodel cyllido penodol. At hynny, mae'r Pwyllgor yn croesawu sicrwydd y Gweinidog y bydd ei ffocws ar CAMHS yn ddi-ildio ac y bydd gwasanaethau'n cael eu dwyn i gyfrif am eu perfformiad.[18] Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd y wybodaeth hon yn helpu i lywio ymchwiliad presennol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i CAMHS.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhagor o fanylion ynghylch dyrannu arian i'r maes iechyd meddwl gan ei bod yn ymddangos fod gwybodaeth wedi cael ei chyflwyno mewn fformat gwahanol yn nogfennau'r Gyllideb Ddrafft eleni. Yn ogystal, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ynghylch a oedd y dyraniad wedi'i glustnodi ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl wedi cynyddu yn unol â chwyddiant ers ei sefydlu.

## 8. Deddfwriaeth

*(Egwyddor: fforddiadwyedd/gwerth am arian)*

Mae rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ym maes iechyd a gofal cymdeithasol wedi bod yn uchelgeisiol yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. Mae Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i gyd yn

---

[18] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Drafft o Gofnod y Trafodion [para 51]*, 16 Hydref 2014

ddeddfau y mae darnau sylweddol o is-ddeddfwriaeth yn deillio ohonynt ac y mae angen cyllid arnynt. Yn ogystal, caiff cyllid ei ddyrannu ar gyfer darpariaethau sydd wedi'u cynnwys ym Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008 a Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Mae papur y Gweinidog yn nodi y bydd cynigion ar gyfer deddfwriaeth ym meysydd iechyd y cyhoedd a rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau cymdeithasol yn creu gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol 2015-16, ond bod gwaith yn mynd rhagddo i asesu eu heffaith ariannol bosibl yn y blynyddoedd dilynol. Bydd y Pwyllgor yn cymryd diddordeb brwd yn agweddau ariannol y ddau Fil os cânt eu cyflwyno a'u cyfeirio i'w hystyried, yn ôl y disgwyl, yn ystod 2015.

Mewn perthynas â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae papur y Gweinidog yn datgan y bydd rhagor o waith ar asesu costau a manteision ei gweithredu yn cael ei wneud wrth i is-ddeddfwriaeth berthnasol gael ei datblygu. Aiff ymlaen i ddweud:

> "The outcomes of this work should be viewed against the broader background of a system developed to be revenue-neutral through shifting the focus and burden of cost towards supporting well-being, earlier intervention and citizen voice and away from late-stage, high intensity, intrusive and high cost interventions".[19]

Mae'r papur hefyd yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu tair blynedd o gyllid trosiannol - gan gynnwys £3 miliwn yn 2015-16 - i lywodraeth leol a'i phartneriaid i'w cynorthwyo i dalu costau mabwysiadu ffordd newydd o weithio a gyflwynwyd gan y Ddeddf. Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i ystyried y rheoliadau sy'n deillio o'r Ddeddf a bydd yn cadw llygad barcud ar effaith debygol y rheoliadau ar gapasiti awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau, yn enwedig yn wyneb y gostyngiadau yn y gyllideb a drafodwyd yn adran 3 o'r atodiad hwn.

## 9. Symud gwasanaethau o ysbytai i'r gymuned

*(Egwyddor: fforddiadwyedd/gwerth am arian)*

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod symud gwasanaethau o ofal eilaidd i ofal cymunedol a sylfaenol yn amcan strategol allweddol i Lywodraeth Cymru. Nododd y Gweinidog ei fod yn ystyried a oes modd defnyddio'r cyllid

[19] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *HSC(4)-24-14 Papur 5 - tystiolaeth ysgrifenedig gan y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Iechyd*, 16 Hydref 2014

refeniw ychwanegol gwerth £25 miliwn sydd heb ei ddyrannu ar gyfer gwasanaethau'r GIG ar gyfer 2015-16 i sicrhau cynnydd pellach mewn perthynas â'r nod strategol hwn, er gwaethaf y galwadau eraill ar y swm hwn sydd heb ei ddyrannu ar hyn o bryd. [20]

Cydnabu'r Gweinidog fod gwasanaethau gofal sylfaenol wedi derbyn llai o arian yn y flwyddyn ariannol 2015-16 fel cyfran o gyfanswm y gyllideb nag yn y blynyddoedd blaenorol, ond nododd yn nhermau arian parod eu bod wedi derbyn mwy o arian nag mewn blynyddoedd blaenorol oherwydd bod mwy o arian wedi cael ei ddyrannu i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol nag a wnaed yn y gorffennol. Roedd hefyd yn cydnabod nad oedd symud gwasanaethau o ofal eilaidd i ofal sylfaenol yn dasg hawdd, gan nodi ei bod yn rhaid i'r ysgogiad ar gyfer hyn ddod nid yn unig oddi wrth fyrddau iechyd sy'n ceisio gwthio gwasanaethau o ysbytai i'r gymuned, ond hefyd o'r maes gofal sylfaenol a fydd yn cymryd cyfrifoldeb dros y gwasanaethau hyn.[21]

O ystyried y pwyslais a roddir gan Lywodraeth Cymru ar bwysigrwydd symud gwasanaethau o ysbytai i'r gymuned ar gyfer cynaliadwyedd gwasanaethau, mae'r Pwyllgor yn galw ar Weinidogion i weithio gyda byrddau iechyd i sicrhau bod y newid yn y polisi yn cael ei adlewyrchu gan y newid angenrheidiol mewn cyllidebau.

## 10. Arbedion effeithlonrwydd

*(Egwyddor: fforddiadwyedd/gwerth am arian)*

Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid, mae Conffederasiwn GIG Cymru yn rhybuddio:

> "While the efficiency savings made by the NHS are significant, the annual achievement has been gradually diminishing year on year, a reflection that 'doing more of the same' will not deliver the level of cost reductions required to contend with the anticipated increased demands and costs of running NHS services going forward".[22]

Nododd adroddiad diweddar Archwilydd Cyffredinol Cymru *GIG Cymru: Trosolwg o Berfformiad Ariannol a Pherfformiad Gwasanaethau 2013-14*:

---

[20] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Drafft o Gofnod y Trafodion [para 45]*, 16 Hydref 2014
[21] Ibid, *Drafft o Gofnod y Trafodion [paragraffau 143-145]*, 16 Hydref 2014
[22] Ibid, *FIN (4) - 15-16WGDB13 Tystiolaeth ysgrifenedig gan Gonffederasiwn GIG Cymru* , Medi 2014

> "...fod modd adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma a nodir gan Ymddiriedolaeth Nuffield a gwella effeithlonrwydd ymhellach ond mae ein dadansoddiad ein hunain yn awgrymu y byddai'n anodd iawn cyflawni'r amcanestyniadau mwy optimistaidd ar gyfer effeithlonrwydd yn y sector acíwt heb newidiadau radical".[23]

Derbyniodd y Gweinidog honiad Conffederasiwn GIG Cymru, a ddywedodd fod gwneud arbedion yn anoddach o flwyddyn i flwyddyn gan fod y materion haws wedi eu datrys. Serch hynny, roedd yn credu bod perfformiad cyffredinol GIG Cymru o ran cyflawni'r swm angenrheidiol o arbedion wedi bod yn nodedig. Nododd y Gweinidog, yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, fod GIG Cymru wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd o £185 miliwn, sef dim ond £3 miliwn yn llai na'r hyn a gyflawnwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol.[24] Rhybuddiodd, fodd bynnag, na ellir disgwyl i bob rhan o'r system ddod o hyd i arbedion yn yr un modd â rhannau eraill o'r system, gan nodi Gwasanaeth Ambiwlans Cymru fel enghraifft. Yn yr achos hwn, eglurodd y Gweinidog fod cyllid cyfalaf ychwanegol ar gael i gynorthwyo ei ymdrechion i sicrhau arbedion drwy wella effeithlonrwydd, er enghraifft, drwy foderneiddio ei fflyd o gerbydau.[25]

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwaith caled sydd wedi cael ei wneud gan GIG Cymru i sicrhau effeithlonrwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'n parhau i fod yn amlwg, fodd bynnag, bod angen gwneud newidiadau sylweddol i wasanaethau er mwyn cyflawni arbedion y dywed Ymddiriedolaeth Nuffield eu bod yn angenrheidiol er mwyn cynnal gwasanaethau yng Nghymru.

## 11. Ymgyfreitha a'r gronfa risg

Mae cyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14 yn cynnwys darpariaethau sy'n cydnabod rhwymedigaeth i dalu costau penodol yn y dyfodol. Dengys nodyn 18 fod £593.8 miliwn o'r £605 miliwn mewn darpariaethau Llywodraeth Cymru yn ymwneud â Chronfa Risg Cymru y GIG, sy'n ymwneud yn bennaf â hawliadau am esgeulustod meddygol neu esgeulustod cyflogwyr. Mae hyn wedi cynyddu'n sylweddol o £521 miliwn yn 2012-13.

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, eglurodd swyddogion, o dan reolau archwilio berthnasol, fod angen gwneud darpariaethau yng Nghronfa Risg Cymru, nid

---

[23] Archwilydd Cyffredinol Cymru, *GIG Cymru Trosolwg o Berfformiad Ariannol a Pherfformiad Gwasanaethau 2013-14* , Hydref 2014
[24] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Drafft o Gofnod y Trafodion [para 150]*, 16 Hydref 2014
[25] Ibid, , *Drafft o Gofnod y Trafodion [paragraffau 151-152]*, 16 Hydref 2014

yn unig ar gyfer y flwyddyn gyfredol, ond ar gyfer y dyfodol. Nodwyd bod yr effaith wirioneddol mewn unrhyw flwyddyn ariannol unigol ar gyfer cronfa risg Cymru oddeutu £70 miliwn, sy'n cael ei gynnwys o fewn cyllidebau presennol. Nodwyd bod y swm mwy yn ymwneud â chyfnod o oddeutu degawd.[26]

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael dadansoddiad pellach yn ymwneud â maint a lefel y setliadau yn ystod y flwyddyn a wnaed yn erbyn y gronfa risg yn y blynyddoedd diwethaf, fel y gofynnwyd yn ystod y cyfarfod.

[26] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Drafft o Gofnod y Trafodion [paragraffau 132-133]*, 16 Hydref 2014

**ATODIAD B - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
**Children, Young People and Education Committee**

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

David Rees AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

15 Hydref 2014

Annwyl David

**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15**

Ysgrifennodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 14 Awst i geisio gwybodaeth am y dyraniadau cyllideb o fewn ei bortffolio.  Atebodd y Gweinidog ar 2 Hydref.

Cytunodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 9 Hydref y dylwn ysgrifennu atoch i dynnu sylw eich Pwyllgor at nifer o faterion sy'n ymwneud ag ymateb y Gweinidog, cyn eich sesiwn graffu gyda'r Gweinidog.  Bydd y Pwyllgor, wrth gwrs, yn ysgrifennu at y Gweinidog ar wahân i geisio rhagor o wybodaeth am y materion hyn, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallech, os yn bosibl, godi rhai o'r materion hyn gyda'r Gweinidog.

- **£10m ychwanegol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol**: pa fecanwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi ar waith i sicrhau bod cyfran briodol yn cael ei gwario ar blant;
- **Trosglwyddo £4.6m ar gyfer y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd i'r Grant Cynnal Refeniw**: pa gamau diogelu sydd wedi cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwneud buddsoddiad parhaus yn y rhaglen newydd hon dros gyfnod o amser;

- **£3m ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol:** pa fecanwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i roi ar waith i sicrhau bod cyfran briodol yn cael ei gwario ar y ddeddfwriaeth fel y mae'n effeithio ar blant a phobl ifanc;

- **Trefniadau ariannu ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol:** o gofio bod trefniadau ariannu yn ôl disgresiwn y Bwrdd Iechyd Lleol ac nad oes oedran neilltuo cysylltiedig:
  - Sut y mae Llywodraeth Cymru yn asesu effaith penderfyniadau gwariant y BILl ar iechyd a lles plant;
  - Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith bosibl ar iechyd plant sy'n codi o Adolygiad Adnoddau'r Bwrdd Iechyd Lleol.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn ysgrifennu at y Gweinidog ar nifer o faterion.

Yn gywir

**Ann Jones AC / AM**
Cadeirydd / Chair